**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL**

**DIWYGIEDIG**

**(MEMORANDWM RHIF 4)**

**Y Bil Menter: Swyddi Sector Cyhoeddus: Cyfyngu ar Daliadau Ymadael**

Mae'r memorandwm hwn yn ddiwygiad o'r memorandwm a osodwyd ar 5 Chwefror mewn perthynas â chyfyngu ar daliadau ymadael. Mae'n wahanol i'r memorandwm cynharach gan ei fod wedi'i ddiwygio er mwyn ystyried y gwelliannau i'r Bil Menter a gyflwynwyd ar 1 Mawrth gan y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau.

Mae'r gwelliannau i'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorlys roi pwerau i Weinidogion Cymru lacio'r cap ar daliadau ymadael. Bydd rheoliadau'r Trysorlys yn galluogi Gweinidogion Cymru i lacio'r cap mewn perthynas â thaliadau ymadael sy'n cael eu gwneud gan awdurdod sy'n cyflawni ei swyddogaethau'n llawn neu'n bennaf o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r gwelliannau hefyd yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â thaliadau ymadael a wneir i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol, aelodau o gynghorau sir a bwrdeistrefi sirol ac aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

Nodir manylion y gwelliannau perthnasol ym mharagraff newydd 8A isod. Mae paragraffau 13 i 15 wedi'u diwygio i nodi barn Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'n briodol bellach i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud yn y Bil yng ngoleuni'r gwelliannau a gyflwynwyd.

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Menter (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 16 Medi 2015. Gellir cael copi o'r Bil yn:

   **http://services.parliament.uk/bills/2015-16/enterprise.html**

Y fersiwn gyfredol o'r Bil yw'r Bil a basiwyd o Dŷ'r Arglwyddi i Dŷ'r Cyffredin (HC Bill 112), ac mae'r cyfeiriadau isod at rifau Rhannau a chymalau yn cyfeirio at y fersiwn hon o'r Bil.

**Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi**

3. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ("BIS"). Y prif amcanion a ddatganwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw:

   a) Cadarnhau safle'r DU fel y lle gorau yn Ewrop i gychwyn a thyfu busnes, drwy leihau biwrocratiaeth a'i gwneud yn haws i fusnesau bach ddatrys anghydfodau yn gyflym a hwylus; a

   b) Gwobrwyo entrepreneuriaeth, creu swyddi a chyflogau uwch i bawb a chynnig cyfle i bobl yn ystod pob cyfnod o'u hoes.

4. Mae naw rhan i'r Bil:

   - mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth i sefydlu Comisiynydd Busnesau Bach;

   - mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer estyn y Targed Effaith Busnes drwy gynnwys rheoleiddwyr ynddo, ac yn cynorthwyo newid yn y modd y cyflawnir rheoleiddio gan reoleiddwyr drwy'r Ddyletswydd Twf a'r Cod Rheoleiddwyr;

   - mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer symleiddio'r Cynllun Awdurdodau Sylfaenol;

   - mae Rhan 4 yn gwneud darpariaethau sy'n cyflwyno targed ar gyfer cyfanswm nifer y prentisiaid sy'n gweithio mewn cyrff sector cyhoeddus ac yn rhwystro camddefnyddio'r term 'Prentisiaeth';

   - mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth sy'n cyflwyno rhwymedigaeth gyfreithiol i dalu hawliadau yswiriant o fewn cyfnod rhesymol;

   - mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio ("y VOA") a llywodraeth leol, am drethdalwyr ardrethi annomestig a'u heiddo, ac ar gyfer diwygio'r system apelau ardrethi annomestig;

   - mae Rhan 7 yn gwneud darpariaethau sy'n diweddaru Deddf Datblygu Diwydiannol 1982;

   - mae Rhan 8 yn gwneud darpariaethau ar gyfer capio taliadau ymadael i weithwyr yn y sector cyhoeddus; ac

- mae Rhan 9 yn gwneud darpariaethau cyffredinol ynglŷn â diwygiadau canlyniadol a throsiannol a darpariaethau arbed a chychwyn.

**Darpariaethau yn y Bil y mae Llywodraeth Cymru'n eu hystyried fel rhai perthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29**

5. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer Rhan 8 o'r Bil: "Swyddi Sector Cyhoeddus: Cyfyngu ar Daliadau Ymadael". I grynhoi, mae Rhan 8 yn caniatáu i Drysorlys Ei Mawrhydi wneud rheoliadau i gapio taliadau ymadael yn y sector cyhoeddus ar £95,000.

6. Mae'r cymalau perthnasol yn rhoi pŵer i'r Trysorlys wneud rheoliadau i sicrhau nad yw cyfanswm gwerth taliadau ymadael i gyflogeion a swyddogion awdurdodau sector cyhoeddus penodol pan fyddant yn gadael eu swyddi yn fwy na £95,000.
7. Mae'r disgrifiadau o daliadau ymadael y gellid eu pennu yn cynnwys -
   a) unrhyw daliad diswyddo yn sgil dileu swydd;
   b) unrhyw daliad ymadael gwirfoddol;
   c) unrhyw daliad i ostwng neu ddileu gostyngiad actwaraidd i bensiwn wrth ymddeol yn gynnar neu yn ymwneud â'r gost i gynllun pensiwn o beidio â gwneud gostyngiad o'r fath;
   d) unrhyw daliad diswyddo neu daliad ex gratia arall;
   e) unrhyw daliad yn ymwneud â hawl heb ei gasglu;
   f) unrhyw daliad iawndal dan delerau contract;
   g) unrhyw daliad yn lle rhybudd;
   h) unrhyw daliad ar ffurf cyfranddaliadau neu opsiynau cyfranddaliadau.

8. Gall rheoliadau a wneir gan y Trysorlys -
   a) nodi pa awdurdodau sector cyhoeddus penodol y mae'r cap yn berthnasol iddynt;
   b) pennu pa daliadau sy'n dod o dan y cap;
   c) darparu bod taliadau penodol neu gategorïau o daliadau yn cael eu heithrio o'r cap;
   d) caniatáu ar gyfer gosod swm gwahanol yn gyfnewid am y cap o £95,000 sy'n cael ei osod gan y Bil ei hun.

8A. Bydd y gwelliannau a gyflwynwyd ar 1 Mawrth yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru lacio'r cap mewn perthynas â thaliadau ymadael sy'n cael eu gwneud gan awdurdodau sy'n cyflawni swyddogaethau datganoledig yn llawn neu'n bennaf (swyddogaethau y gellid eu rhoi drwy Ddeddf y Cynulliad) – byddai hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) taliadau ymadael a wneir i staff cyrff GIG ac awdurdodau lleol Cymru (gweler adran newydd 153C(6A)(a)).

a) bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau'r Trysorlys roi'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru (fel na fydd modd i'r Trysorlys ddewis peidio â'i roi i Weinidogion Cymru)

b) ni fyddai gofyn i Weinidogion Cymru gael cydsyniad y Trysorlys na dilyn cyfarwyddyd y Trysorlys cyn llacio'r cap (oherwydd nid yw'r ddarpariaeth yn adran newydd 153C(4)(b) yn berthnasol i lacio a ganiateir gan Weinidogion Cymru)

c) gall rheoliadau'r Trysorlys wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am unrhyw lacio o'r cap

d) bydd y pŵer sy'n cael ei roi i Weinidogion Cymru yn caniatáu iddynt lacio'r cap:

i. mewn perthynas â chyflogai neu ddeiliad swydd penodol neu ddisgrifiad o gyflogeion neu ddeiliaid swydd;

ii. mewn perthynas â thaliad ymadael cyfan neu rannol, neu ddisgrifiad o daliad ymadael.

Yn ogystal, mae'r gwelliannau'n caniatáu i'r Trysorlys roi pŵer i lacio cap pan fo taliad ymadael yn cael ei wneud gan unrhyw awdurdod arall (sef awdurdod nad yw'n syrthio dan bŵer Gweinidogion Cymru dan adran newydd 153C(6A) (gweler adran newydd 153C(6A)(b)).

Bydd Gweinidogion Cymru'n cael pwerau gwneud rheoliadau mewn perthynas â thaliadau ymadael a wneir i'r canlynol:

a) Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

b) Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog

c) y Cwnsler Cyffredinol

d) aelodau o gynghorau sir a bwrdeistrefi sirol

e) aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru

f) aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

9. Mae'r holl ddarpariaethau a amlinellwyd uchod yn berthnasol mewn perthynas â Chymru.

10. Byddai’r pŵer i wneud rheoliadau a ddisgrifir uchod yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad.

11. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae’r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i’r graddau y maent yn ymwneud â chyfres o bynciau yn Atodlen 7, Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

12. Mae'r pynciau hyn yn cynnwys y canlynol (ond nid yw'n rhestr gyflawn) -

    Cyflogau, lwfansau, pensiynau ac arian rhodd i'r canlynol ac mewn perthynas â'r canlynol: Aelodau'r Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru a benodir o dan adran 48, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru; dan baragraff 13 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru);

    Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a’u haelodau a’u swyddogion; dan baragraff 12 (Llywodraeth Leol);

    Addysg, hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol; dan baragraff 5 (Adran Addysg a hyfforddiant);

    Gwasanaethau Tân ac Achub; dan baragraff 7 (Gwasanaethau tân ac achub a diogelwch rhag tân);

    Darparu gwasanaethau iechyd gan gynnwys gwasanaethau a chyfleusterau meddygol, deintyddol, ophthalmig, fferyllol ac ategol, a threfnu ac ariannu gwasanaeth iechyd gwladol; dan baragraff 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd).

**A yw'n briodol i'r darpariaethau hyn gael eu gwneud, ac a ddylid eu gwneud drwy gyfrwng y Bil**

13. Mae’r gwelliannau a gyflwynwyd ar 1 Mawrth yn sicrhau y bydd gan Weinidogion Cymru’r pŵer i gyfyngu ar daliadau ymadael penodol a llacio’r cyfyngiad mewn perthynas ag eraill.

14. Yn ein barn ni, mae’n briodol i Weinidogion Cymru gael y pwerau hyn. Mae pwerau Gweinidogion Cymru i lacio’r cap ar daliadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus sy’n arddel swyddogaethau’n llawn neu’n bennaf o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu’r cap mewn ffordd sy’n briodol ar gyfer amgylchiadau’r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Yn unol â hynny, barn Llywodraeth Cymru yw ei bod bellach yn briodol i’r darpariaethau hyn gael eu gwneud drwy gyfrwng y Bil hwn, ac fe fyddaf

yn gofyn i'r Cynulliad gydsynio i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd yn cael ei drafod.

15. Mae'n briodol gwneud y ddarpariaeth hon mewn Bil Senedd y DU gan ei fod yn galluogi'r ddarpariaeth mewn perthynas â thaliadau ymadael i ddod i rym ar yr un pryd yng Nghymru ac yn Lloegr a'r Alban. Mae hyn yn caniatáu darpariaeth gydlynol ar draws y gweinyddiaethau hyn, gan ganiatáu hefyd i Weinidogion Cymru ystyried a ddylai'r darpariaethau gael eu llacio mewn perthynas â'r sector cyhoeddus datganoledig.

## Goblygiadau ariannol

16. Byddai cap o £95,000 ar swm taliadau ymadael i unigolion. Gallai cap ar daliadau ymadael y sector cyhoeddus leihau costau trefniadau ymadawiadau, ond byddai hyn fodd bynnag yn dibynnu ar nifer o ffactorau.

**Leighton Andrews AC**

**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Mawrth 2016**